## Etholiad Ysgrifennydd Cyffredinol yr NUT 2004

## etholwch MARTIN POWELL-DAVIES

# Arweinydd Athrawon ar Gyflog Athro



### Yn deall athrawon ...

*“ Martin yw'r unig ymgeisydd yn yr etholiad hwn sydd yn dal i ddysgu'n yr ystafell ddosbarth. Ymgyrchwr profiadol yw e yn ogystal ag ysgrifennydd NUT lleol sydd yn deall i'r dim y pwysau ar aelodau'r NUT.*

Nina Franklin, Gweithgor Cenedlaethol yr NUT, yn siarad ar ei chyfer

### ... yn amddiffyn aelodau’r NUT ...

*“ Pan ymosodwyd arna i'n giaidd yn fy ysgol gan hilwyr, Martin a roddodd bob gewyn ar waith i'm cefnogi. Bydda i'n cefnogi Martin oherwydd rwy'n gwybod ei fod e'n poeni am ddiddordebau athrawon."*

Alison Moore, athrawes gynradd yn Lewisham

### ... ac yn bwriadu dal i ddeall!

*“ Yn lle mynd am y cyflog enfawr y mae Doug McAvoy yn ei dderbyn, sef £94,000, mae Martin wedi addo aros ar ei gyflogathro dosbarth. Mae e wedi ymrwymo i frwydro dros y gorau ar gyfer addysg, athrawon a phlant"*

Linda Taaffe, Gweithgor Cenedlaethol yr NUT, yn siarad ar eichyfer

## Yn sefyll dros:

- **Rhoi diwedd ar faich gwaith gormodol. Gorfodi cytbwys go iawn rhwng gwaith a bywyd**
- **Gweithredu yn erbyn Cyflog Perfformiad a rhewi cyflogau**
- **Ymgyrchu o ddifrif i atal TASau a Thablau Ysgolion**
- **Uno athrawon yn erbyn "addysgu rhad"**
- **Gweithredu dros amddiffyn yr hawl i ymddeol ar bensiwn llawn yn 60 oed**

**Am ragor o wybodaeth am ymgyrch Martin:**
**www.electmartin.org.uk   martin@electmartin.org.uk   ffôn: 07946 445488**

# Pleidleisiwch am Newid

Am ormod o flynyddoedd bellach, y mae arweinyddiaeth ein hundeb - gan gynnwys John Bangs a Steve Sinnott - wedi methu amddiffyn yraelodau rhag y pwysau aruthrol arnynt. Bydd Martin yn cynnig newid go iawn er gwell. Ysgrifennydd Cyffredinol fyddai y gallen ymddiried ynddo i wneud yn ogystal â dweud wrth adeiladu undeb sydd yn barod i drefnu ymgyrchoedd i amddiffyn athrawon ac addysg.

## Trefnydd profiadol

*Mae gan Martin y gallu i arwain ein Hundeb. Ac yntau'n sosialydd ac undebwr rhonc, mae Martin wedi ennill ei blwyf ar raddfa leol a chenedlaethol yn ymgyrchu ar faterion megis TASau, Cyflog ar Sail Perfformiad, cau ysgolion, Menter Cyllid Preifat, gwrth-hiliaeth, yn ogystal â phynciau lu eraill oddi mewn ac y tu allan i'r Undeb.*

## Ysgrifennydd NUT Lewisham a Chydundebau Athrawon Lewisham ers dros degawd

*Mae Martin yn gyson wedi brwydro dros athrawon trwy drafod ac ymgyrchu trostynt neu drwy eu cynrychioli. Hefyd mae e wedi annog cyd-weithredu gydag undebau eraill, er enghraifft ar streic undydd 2002 dros Lwfans Llundain gyda'r NASUWT.*

## Athro uwchradd ers 1986

*Martin yw'r unig ymgeisydd sydd yn dal i ddysgu yn y dosbarth ar ben ei gyfrifoldebau gyda'r Undeb. Eleni, mae'n gweithio fel athro gwyddorau ar gyfer Blynyddoedd 10ac 11 mewn ysgol yn Lewisham.*

## Siarad o blaid athrawon

*Mae gan Martin brofiad helaeth o lefaru o blaid athrawon yn genedlaethol ar y radio a'r teledu, ac mewn cyfarfodydd Undeb a gerbron y cyhoedd.*

## Tad pedwar o blant cynradd

*NId oes rhaid atgoffa Martin o'r niwed a ddaw o TASau, toriadau, addysg ddethol, ffioedd dysgu, a chynlluniau "Awyr Las" y Llywodraeth ar gyfer "addysgu rhad".*

## RHAGLEN MARTIN AR GYFER ATHRAWON:

- **YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL SY'N DEALL ATHRAWON**
  Buaswn i'n aros ar gyflog athro dosbarth, heblaw am hawlio'r treuliau angenrheidiol a fydd yn agored i'w harchwilio gan aelodau. Buaswn yn defnyddio gweddill cyflog yr Ysgrifennydd Cyffredinol i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol ganathrawon ac undebau.
- **AMDDIFFYN AELODAU YNERBYN BWLIO GAN REOLWYR AC OFSTED**
  Buaswn i'n sicrhau bod yr Undeb yn rhoi'r adnoddau sydd eu heisiau i ymgyrch dros Gymdeithasau NUT lleol cryf ac dros gael digon o amser i gynrychiolwyr a swyddogion lleol helpu aelodau.
- **GWRTHWYNEBU BAICH GWAITH GORMODOL, GORFODI CYTBWYS GO IAWN RHWNG GWAITH A BYWYD**
  Buaswn i'n cryfhau ein hymgyrch ar faich gwaith fel y bod aelodau NUT yn gallu gwrthod gweithio'n afresymol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ar dasgau megis cynllunio, asesu ac eraill, tra'n ymgyrchu dros leihau'r baich gwaith, yn arbennig i ennill o leiaf 20% o amser digyswllt ar gyfer athrawon cynradd.
- **GWEITHREDU I WRTHWYNEBU CYFLOG AR SAIL PERFFORMIAD A RHEWI CYFLOGAU**
  Gallai'r "cytundeb" cyflog diweddaraf esgor ar ddyfodol pan fydd ein cyflogau yn cael eu pennu yn fympwyol ar sail perfformiad rhywun, yn hytrach nag yn ôl ei brofiad a chyfrifoldeb. Buaswn i'n trefnu gwrthdystiad cenedlaethol fel cam cyntaf mewn ymgyrch i amddiffyn ein cyflog ac amodau.
- **RHOI DIWEDD AR TASAU A THABLAU YSGOLION**
  Er gwaethaf y pleidlais o 86% o blaid, mae'r Undeb wedi gadael i aelodau'r ysgolion cynradd i roi eu plant trwy'r TASau unwaith eto. Buaswn i'n gweithio dros gynnal pleidlais newydd fel ein bod ni'n cael boicotio'r TASau'n llwyr.
- **UNDEB YR UNDEBAU - PERSWADIO'R UNDEBAU I GYD I DYNNU ALLAN O'R "CYTUNDEB GWEITHLU"**
  Buaswn i'n cefnogi streicio er mwyn atal staff anghymwys rhag cymryd swyddi dysgu tra'n ymgyrchu ar ran pob Undeb y TUC - boed yn undeb ddysgu neu beidio - dros dynnu allan o'r cyntundeb presennol ac ennill un newydd a fyddai'n esgor ar dâl ac amodau teilwng i'r staff i gyd.
- **YR ADNODDAU SYDD EU HEISIAU I GWRDD AG ANGHENION YSGOLION**
  Buaswn i'n cyd-weithio gydag Undebau eraill y TUC i gysylltu brwydrau lleol gyda'r ymgyrch cenedlaethol i wrthwynebu toriadau a phreifateiddio ac i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus.
- **AMDDIFFYN CYFLEOEDD CYFARTAL. CRYFHAU GWRTH-HILIAETH**
  Buaswn i'n annog aelodau'r NUT i ddechrau ymgyrchu'n lleol yn erbyn sefydliadau hiliol a ffasgaidd a datblygu deunyddiau dysgu'r Undeb ar gyfer ysgolion. Buaswn i'n ymgyrchu dros yr hawl i ddychwelyd i waith tâl llawn yn raddol ar ôl mamolaeth yn ogystal ag addysg feithrin am ddim i bawb.
- **GWEITHREDU DROS AMDDIFFYN YR HAWL I YMDDEOL AR BENSIWN LLAWN AM 60 OED. HWYLUSO YMDDEOLIAD CYNNAR**
  Fel cam cyntaf i amddiffyn ein pensiynau, buaswn i'n galw ar y TUC i gynnal y diwrnod cenedlaethol o weithredu a gytunwyd gan y TUC ac, os gwrthodant, mynd yn ein blaenau gyda'r undebau sydd yn fodlon.
- **GWRTHWYNEBU YMOSODIADAU GAN LAFUR AR ADDYSG GYFUN. GWRTHWYNEBU ADDYSG DDETHOL A FFIOEDD ATEGOL - DILEU BENTHYCIADAU PRIFYSGOL ATHRAWON**
  Buaswn i'n cynyddu ymgyrch yr Undeb dros addysg dda gan gynnwys cefnogi ymgeiswyr â chefnogaeth undeb sydd yn sefyll yn erbyn Llafur Newydd.
- **SEFYLL DROS EIN HEGWYDDORION YM MUDIAD YR UNDEBAU**
  Buaswn i'n sicrhau bod yr NUT yn cymryd rhan gyflawn yn ymgyrchoedd mawr mudiad yr undebau. Er enghraifft, er mawr siom i athrawon fel mi sydd wedi gwrthdystio yn erbyn y rhyfel a chyfeddiannu Irác, ni chaniatawyd gan arweinwyryr NUT i aelodau gario baner yr undeb ar y gwrthdystiadau. Hefyd, buaswn i'n ceisio am gefnogaeth gan undebau, y cyhoedd a rhieni ar gyfer ein hymgyrchoedd ni.